



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL

GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

C Hanagan
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Hannah Williams - Uned Busnes y Cyngor - Gwasanaethau Llywodraethol
(01443 424062)

Bydd cyfarfod o'r **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** yn cael ei gynnal yn **Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany, CF40 2XX** ar **DYDD IAU, 15FED AWST, 2019** am **5.00 PM**.

MAE MODD I AELODAU NAD YDYN NHW'N AELODAU O'R PWYLLGOR AC AELODAU O'R CYHOEDD OFYN I ANNERCH Y PWYLLGOR YN YSTOD Y CYFARFOD SY'N YMWNEUD Â'R MATER SYDD WEDI'I NODI. RYDYN NI'N GOFYN EICH BOD CHI'N RHOI GWYBOD AM EICH BWRIAD I SIARAD DRWY E-BOSTIO **GWASANAETHAUCYNLLUNIO@RCTCBC.GOV.UK** ERBYN 5PM AR DYDD MAWRTH, 13 AWST 2019, GAN NODI A FYDDWCH CHI'N SIARAD YN GYMRAEG NEU'N SAESNEG.

MAE'N BOSIB BYDD TREFN YR AGENDA'N NEWID ER MWYN HWYLUSO BUSNES Y PWYLLGOR.

AGENDA

Tudalennau

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

Noder:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

Nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

3. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

4. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf 2019.

5 - 10

CEISIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER EU CYMERADWYO GAN Y CYFARWYDDWR MATERION FFYNIANT A DATBLYGU

5. CAIS: 19/0471

Newid defnydd o dŷ ocsiwn (Sui Generis) i greu 2 uned tecawê (A3) ac 1 uned fanwerthu (A1). 66b Hannah Street, y Porth.

11 - 24

6. CAIS: 19/0512

Gosod 14 o golofnau ar gyfer llif oleuadau. Cae Athletau Cwm Clydach, Parc Coffa Brenin Siôr V, Pafiliwn Busnes Cambrian Court tua'r pen deheuol, Tonypandy.

25 - 30

7. CAIS: 19/0526

Canolfan iechyd gofal sylfaenol ddeulawr arfaethedig, gyda maes parcio cysylltiedig, storfa finiau a storfa feiciau. Tir yn Henry Street, Aberpennar.

31 - 64

8. CAIS: 19/0562

Datblygu hen siop bapurau newydd yn 'Feicro-dafarn'. Hen siop bapurau newydd gyferbyn ag Archfarchnad Spar, Heol Gwaunmeisgyn, y Beddau.

65 - 70

9. CAIS: 19/0592

Estyniad sy'n dri-llawr yn rhannol, a'n un-llawr yn rhannol, i ochr yr adeilad. To fflat newydd i'r estyniad presennol. 79 Lanwood Road, Graigwen, Pontypridd.

71 - 78

10. CAIS: 19/0606

Dymchwel garej ddwbl bresennol a chreu annedd newydd. Annedd i'w gysylltu â'r tŷ presennol (Rhif 18) 18 Forest Hills Drive, Tonysguboriau, Pont-y-clun.

79 - 90

11. CAIS: 19/0615

Adeiladu garej y mae modd ei chloi a storfa ategol i'r siop garped. 15 Llantrisant Road, Pont-y-clun

91 - 98

12. CAIS: 19/0685

Adeiladu ysgol gynradd newydd (Derbyniwyd cynlluniau diwygiedig ar 12/07/2019) Ysgol Fabanod a Meithrin Hirwaun, Glanant Street, Hirwaun, Aberdâr.

99 - 120

YMWELIADAU SAFLE

13. CAIS: 18/0313

Dwy uned Dosbarth A1 (manwerthu) arfaethedig, tair uned Dosbarth A3 (bwyd a diod), isadeiledd y priffyrdd, meysydd parcio, trefniadau gwasanaethu a gwaith cysylltiedig. Tir i'r dwyrain o Mill Street, Tonyrefail.

121 - 148

14. CAIS: 19/0218

Newid defnydd dwy ystafell o fewn annedd C3 presennol i A3 caffi/siop goffi, 7 Heol Caerdydd, Ffynnon Taf, Caerdydd, CF15 7RA.

149 - 160

CEISIADAU WEDI'U GOHIRIO

15. CAIS: 18/1333/10

Caniatâd ôl-weithredol ar gyfer llofft colomennod ar wahân (derbyniwyd y cyfeiriad diwygiedig 23/04/19), tu ôl i 14 Teras Arfryn, Tylorstown, Glynrhedynog.

161 - 168

16. CAIS: 18/1400/10

Dymchwel adeiladau presennol ac adeiladu 18 o gartrefi preswyl fforddiadwy a'r gwaith a'r trefniadau mynediad cysylltiedig (cynllun diwygiedig o'r safle wedi'i dderbyn ar 07/02/19). Eglwys y Santes Anne, Church Terrace, Ynys-hir, Y Porth.

169 - 194

ADRODDIAD ER GWYBODAETH

**17. GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU
GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

Rhoi gwybod i Aelodau am y canlynol, ar gyfer y cyfnod 04/07/2019 - 02/08/2019.

Penderfyniadau Cynllunio a Gorfodi – Apeliadau a Dderbyniwyd;
Penderfyniadau Dirprwyedig – Ceisiadau wedi'u cymeradwyo a'u gwrthod gyda rhesymau;
Trosolwg o Achosion Gorfodi; a
Phenderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig.

195 - 212

18. MATERION BRYD

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn rhai bryd yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu

Cylchrediad:-

Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu:

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu
(Y Cynghorydd S Rees a Y Cynghorydd G Caple)

Y Cynghorydd J Bonetto, Y Cynghorydd P Jarman, Y Cynghorydd D Grehan,
Y Cynghorydd G Hughes, Y Cynghorydd J Williams, Y Cynghorydd S Powell,
Y Cynghorydd W Owen, Y Cynghorydd R Yeo ac Y Cynghorydd D Williams